

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 20 Medi 2017

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 26 MEDI 2017 am 10.00 am yn SIAMBR YR CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYS

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017 (copi'n amgaeedig).

5 CAIS BARGEN TWF ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD CYNNYDD (Tudalennau 15 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) yn rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet am ddatblygiad Cais Bargen Twf ar gyfer y rhanbarth a gofyn am gymeradwyaeth i barhau.

6 CYNLLUN CORFFORAETHOL CYNGOR SIR DDINBYCH 2017-2022
(Tudalennau 43 - 70)

I ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau (copi'n amgaeedig) ar y Cynllun Corfforaethol drafft cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

7 POLISI CORFFORAETHOL: INCWM, FFIOEDD A THALIADAU
(Tudalennau 71 - 80)

I ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar y Polisi Corfforaethol: Incwm, Ffioedd a Thaliadau.

8 POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW DIWYGIEDIG 2017 / 18
(Tudalennau 81 - 102)

I ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ac argymhellion diwygiadau i Bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2017/18 i'r Cyngor Sir.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2016/17 (Tudalennau 103 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn diweddu aelodau ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad y Cyngor â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2016/17.

10 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 131 - 144)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 145 - 148)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf).

12 PARC DŴR Y RHYL: DYFARNU CONTRACTAU (Tudalennau 149 - 152)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ddyfarnu'r contract yn gysylltiedig â datblygiad Parc Dŵr Y Rhyl.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon

Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambraethwr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Prifffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

Arsylwyr: Y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Martyn Holland, Gwyneth Kenlser, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Huw Williams ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democratiaidd (GW), Cyllid / Swyddog 151 (RW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Addysg a Gwasanaethau Plant (KE); Prif Reolwr Cefnogi Addysg (GD); Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC); Rheolwr Rhaglen Newid Busnes (TB); Rheolwr Prisio ac Ystadau (GT) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

PWYNTIAU SYLW

Fe wnaeth yr Arweinydd -

- groesawu a chyflwyno'r ddau Aelod Cabinet newydd – y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Prifffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy a'r Cyngorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, a
- adrodd ar ymadawiad Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus ym mis Medi a diolchodd iddi am ei gwaith gwerthfawr yn ystod ei chyfnod yn Sir Ddinbych, yn enwedig o ran yr economi ac adfywio'r Rhyl, a dymunodd ddymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol ar ran y Cabinet a'r Cyngor.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen -

Y Cyngorydd Martyn Holland - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
Y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts – Llywodraethwr AALI a Rhiant

Y Cynghorydd Tony Thomas – Llywodraethwr Ysgol y Santes Ffraid
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Borthyn
Y Cynghorydd Mark Young – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych

Datganodd y Cynghorydd Richard Mainon gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 12 ar y rhaglen oherwydd bod aelodau o'i deulu'n cael eu cyflogi yng Nghastell Bodelwyddan.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

5 POLISI CLUDIANT DYSGWYR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn nodi'r adborth yn dilyn ymgynghoriad ar Bolisi Cludiant Dysgwyr newydd Sir Ddinbych ac yn argymhell y dylid mabwysiadu'r polisi o 1 Medi 2018.

Darparwyd rhywfaint o hanes y polisi a fu'n destun y broses archwilio ac wedi'i ystyried yn y Cyngor Sir ar 4 Gorffennaf pan benderfynwyd y dylid cymeradwyo cyflwyno'r polisi i'r Cabinet i'w fabwysiadu. Cyfeiriwyd hefyd at y broses ymgynghori ac adborth a ddefnyddiwyd i hysbysu'r ddogfen derfynol. Mae'r polisi newydd wedi'i groesawu ac yn cael ei ystyried fel gwelliant sylweddol, gan ddarparu dull sy'n fwy cyfartal na'r polisi blaenorol. Roedd y prif newidiadau yn cynnwys y broses apeliadau dau gam a'r defnydd o bwerau disgrifiwn mewn achosion penodol. Byddai'r polisi terfynol hefyd yn destun rhai newidiadau mân fel yr argymhellwyd gan y pwylgor Archwilio ac yn y Cyngor Sir.

Nododd y Cabinet y broses ymgynghori gynhwysfawr a gwaith archwilio manwl y polisi newydd ac roedden yn falch o nodi'r newidiadau cadarnhaol a wnaed i ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr yn dilyn adborth gan aelodau etholedig a'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) Cadarnhau bod yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5 yr adroddiad) wedi'i ddarllen a'i ddeall, ac
- (b) Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r broses ymgynghori benodol, yn cymeradwyo mabwysiadu Polisi Cludiant Dysgwyr newydd Sir Ddinbych o 1 Medi 2018 yn amodol ar fân addasiadau a godwyd gan y pwylgor archwilio a'r Cyngor llawn.

RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B

Cyflwynodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft (Cynigion Band B) ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Addysg i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Tynnwyd sylw'r Cabinet at y cynigion ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn rownd nesaf y rhaglen gyllid yn seiliedig ar ardaloedd adolygu â blaenoriaeth fel a ganlyn-

- Adolygiad o Ddarpariaeth Dinbych gan gynnwys Ysgol Plas Brondyffryn (cais am £23.6m).
- Darpariaeth Ysgolion Cynradd y Rhyl (cais am £5.15m)
- Canolfan i ddarparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion (cais am £3.95m)
- Adolygiad o Ddarpariaeth Llangollen (cais am £11.9m)
- Estyniad yn Ysgol y Faenol, Bodelwyddan (cais am £900mil)

Byddai'r cynigion yn destun cymeradwyaeth LIC ac argaeledd cyllid ac ni ellir gwarantu y byddai'r prosiectau yn cael eu cyflawni. Byddai'r cais cyffredinol yn costio £32m i'r Cyngor ac nid oedd unrhyw gyllid wedi'i gytuno i gefnogi cyfraniad y Cyngor ar y cam hwn a fyddai'n destun trafodaethau yn y rowndiau cyllid yn y dyfodol. Os na fydd buddsoddi mewn ysgolion yn cael ei nodi'n flaenoriaeth, bydd angen lleihau maint y Rhaglen yn sylweddol. Tynnodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill sylw at yr angen i drafod y buddsoddiad sydd ei angen mewn ysgolion eraill sydd y tu hwnt i raglen cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif gan gyfeirio'n benodol at y sefyllfa yn Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- roedd y cynigion wedi'u cyflwyno yn seiliedig ar gyfradd ymyrraeth o 50/50 ar gyfer prosiectau cyfalaf traddodiadol ac roedd LIC wedi nodi y byddai'r prosiectau yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r rhai a gyflwynir gan awdurdodau lleol eraill gan mai dim ond swm penodol o gyllid oedd ar gael – nid oedd y cynigion wedi'u cyflwyno yn nhreft blaenoriaeth a byddai canlyniadau trafodaethau gyda LIC yn cael eu hadrodd yn ôl.
- ymhelaethu ar y ddua ddewis cyllid (1) llwybr cyfalaf traddodiadol a (2) Model Buddsoddiad Cydfuddiannol (MIM) a oedd yn denu cyfradd o 75% LIC / 25% Awdurdod Lleol. Nid oedd cynigion a fyddai'n denu cyllid MIM wedi'u cyflwyno ar y cam hwn oherwydd y safbwyt cychwynnol oedd na fyddai'n ddewis cyllid addas ar gyfer Sir Ddinbych. Roedd MIM yn debyg i gytundeb Cynllun Ariannu Preifat, ac roedd y manylion yn cael eu profi ar hyn o bryd i asesu sut y byddai'n diwallu anghenion Sir Ddinbych.
- nid oedd y meini prawf ar gyfer y cam hwn yn y rhaglen gyllid yn canolbwytio'n uniongyrchol ar leoedd dros ben ond roedd yn fater i'w ystyried oherwydd yr aneffeithlonrwydd yr oedd yn ei greu. Cyfeiriwyd at ddogfen ymgynghori gan LIC yn ddiweddar ynglŷn ag ysgolion gwledig bychan a allai weld newid yn y pwyslais ar y math hwnnw o ddarpariaeth addysgol. Roedd y swyddogion wedi

parhau â'r un dull a ddefnyddiwyd ar gyfer Band A o ran ystyried yr ardal gyfan a chyd-destun cyflwr ac addasrwydd yr adeilad a lle bo diffygion yn y ddarpariaeth addysgol.

Cytunodd y Cabinet y defnyddiwyd dull synhwyrol er mwyn llunio'r cynigion.

PENDERFYNWYD –

- (a) *bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*
- (b) *bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'u hystyriaethau.*

7 PENODI AELODAU I GYRFF ALLANOL

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans yr adroddiad ar adolygu a phenodi aelodau i gyrff allanol a oedd yn ofynnol yn dilyn etholiadau llywodraeth leol a llunio'r Cyngor newydd.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Evans at y broses adolygu a gynhaliwyd er mwyn sicrhau penodiadau addas i gyrff allanol priodol ac fe gyflwynodd ddiwygiad i'r argymhelliaid i gymeradwyo'r penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad heblaw pedwar sefydliad lle byddai'r penodiadau yn cael eu gwneud drwy benderfyniad dirprwyol yn dilyn ymgynghori pellach gyda'r aelodau. Ymhelaethodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democraidd ar y broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r cyrff allanol a'r aelodau etholedig o ran penodiadau a nodwyd bod angen gwybodaeth bellach cyn y gellir cadarnhau penodiadau i rai o'r cyrff allanol. Byddai penodiadau i gyrff allanol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn destun adroddiadau penderfyniad dirprwyol yn y dyfodol neu'n cael eu hystyried gyda'i gilydd yn y Cabinet pe bai nifer o benodiadau angen eu cymeradwyo ar yr un pryd. Anogwyd yr Aelodau i gyflwyno eu safbwytiau ar unrhyw benodiadau sy'n weddill a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses i benodi.

Cymerodd yr Aelodau'r cyfle i drafod yr adroddiad gyda Phennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democraidd fel a ganlyn-

- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn – fel cyn-gynrychiolydd y Cyngor ar y corff hwnnw eglurodd y Cyngorydd Bobby Feeley ei bod yn cefnogi'r penodiad a argymhellwyd, sef bod y Cyngorydd Emrys Wynne yn derbyn y rôl honno
- Eglurodd y Cyngorydd Martyn Holland bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn galluogi cynghorwyr i fewnbynnu at y broses yn well. Roedd hefyd yn teimlo y dylid datblygu mecanweithiau priodol er mwyn i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai gwybodaeth bellach, ynglŷn â'r cyrff sy'n weddill y mae angen i'r Cyngor benodi cynrychiolwyr iddynt, yn cael ei dosbarthu i'r aelodau ar ôl derbyn yr wybodaeth berthnasol. Eglurodd hefyd bod y gofynion ar gyfer penodiadau penodol yn amrywio rhwng y sefydliadau, ynghyd â'r lwfansau/treuliau sy'n daladwy. Lle bo gan gyrff allanol eu system eu hunan o ad-dalu, roedd yn cael ei ddefnyddio, ac mewn achosion eraill gellir cyflwyno hawliad drwy gynllun lwfans y Cyngor.

Roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ymwneud â chyfrifoldebau aelodau ar gyrrf allanol ac o ran atebolrwyddau roedd gan y Cyngor protocol a chanllawiau mewn perthynas â'r gwahanol rolau a'r indemniad a gynigir, y gellir eu dosbarthu. Byddai'r mater o ran mechanweithiau adrodd ar gyfer y cynrychiolwyr hynny'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

- Adroddodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones ar ei phrofiad fel aelod ar Baneli Mabwysiadu a Maethu a thynnu sylw at yr anghysondebau rhwng y lwfansau sy'n daladwy. Teimlai y dylai bod mwy o ymwybyddiaeth o'r rolau hyn, yn enwedig ar gyfer aelodau newydd, ac y dylid cynnwys y cyfarfodydd hynny yng nghalendr yr aelodau. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth i ystyried ymarferoldeb cynnwys y cyfarfodydd hynny yng nghalendr yr aelodau. Ymhelaethodd hefyd ar y lwfansau sy'n daladwy mewn perthynas â gwahanol gyrrf, gan gynnwys anghysondebau rhwng rhai aelodau ar y Panel Mabwysiadu a'r gwahaniaeth rhwng aelodau annibynnol a chyngorwyr.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo penodiad aelodau i gyrrf allanol fel yr argymhellir yn Atodiad 1 yr adroddiad gan eithrio Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd; Grŵp Gweithredu Lleol Sir Ddinbych, Cadwyn Clwyd; Hosbis St Kentigern; (Ymddiriedolaeth) Llanelwy a Thribiwnlys Prisio Cymru, a bydd penodiadau'r rhain yn cael eu gwneud drwy benderfyniad dirprwyol yn dilyn ymgynghori pellach gyda'r aelodau mewn perthynas â'r penodiadau hyn.

8 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Strategaeth Rheoli Asedau i'w chymeradwyo a'i mabwysiadu.

Roedd y Strategaeth Rheoli Asedau newydd wedi'i datblygu mewn ymateb i gyllidebau tynnach a dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn nodi ymagwedd gorfforaethol y Cyngor i reoli ei asedau. Roedd y strategaeth ddrafft wedi bod yn destun ymgynghoriad ac roedd dadansoddiad cryno o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ynghyd â'r newidiadau o ganlyniad i hynny ac yn dilyn trafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod y strategaeth newydd yn atgyfnerthu'r broses ac yn sicrhau y defnyddir dull sy'n fwy cyfannol gan gysylltu â dogfennau allweddol eraill. Ymhelaethodd hefyd ar y pedwar prif amcan yn nogfen y strategaeth ynghyd â'r camau gweithredu sy'n ategu at y canlyniadau hynny. Tynnwyd sylw at rôl y Grŵp Rheoli Asedau a oedd yn darparu lefel briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac roedd y cyfarfodydd yn agored i'r holl aelodau i sicrhau mwy o dryloywder yn y broses. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Les wedi dangos effaith gadarnhaol yn gyffredinol.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at bwysigrwydd y ddogfen i gynorthwyo'r Cyngor i ddiwallu ei amcanion a blaenoriaethau a oedd yn cynnwys y potensial ar gyfer buddsoddi ynghyd â gwaredu asedau a oedd wedi peri rhywfaint o bryder. Roedd y drafodaeth yn canolbwytio ar Ganlyniad 4 – capaciti a gwydnwch cymunedol. Nododd yr aelodau bod y canlyniad hwn wedi'i ychwanegu yn dilyn ymgynghoriad

gyda Grwpiau Ardal Aelodau ac y byddai angen gwaith pellach i ddatblygu'r canlyniad ymhellach. Roedd y Cabinet yn falch o nodi ei fod wedi'i ychwanegu a thynnwyd sylw at yr angen i fod yn ymwybodol o heriau seilwaith yn y gymuned a bod angen ystyried yr effaith ar y gymuned wrth ystyried gwaredu. Roedd rhywfaint o'r drafodaeth yn canolbwytio ar y cynigion ar gyfer Llyfrgell Rhuthun a sut y gellir gwella'r broses ymgynghori ar gyfer cynlluniau'r dyfodol er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid a'r gymuned ar gam cynnar yn y broses ynglŷn â manteision cynigion penodol i sicrhau cefnogaeth leol a chreu canlyniad cadarnhaol ar gyfer pawb. Cyfeiriodd y swyddogion at y broses o ymgysylltu ac ymgynghori a nodwyd bod y strategaeth yn pwysleisio ar weithio gyda'r gymuned a Chynghorau Dinas/ Tref /Cymuned wrth ystyried derbyniadau a gwarediadau. Ychwanegodd y Cabinet efallai y byddai rhai asedau yn anodd eu gwaredu a thynnwyd sylw at yr angen i ddiogelu rhag gadael yr asedau yn wag.

Nodwyd bod Rheoli Asedau wedi'i nodi yn Adroddiad Gwella Blynnyddol Swyddfa Archwilio Cymru fel maes i fynd i'r afael ag ef ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r strategaeth ac yn fodlon a'i chynnwys.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Asedau.

9 GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL

Cyflwynodd y Cyngropydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Buddsoddi Strategol.

Darparwyd rhywfaint o gefndir a arweiniodd at sefydlu'r Grŵp Buddsoddi Strategol presennol, sef grŵp o aelodau etholedig/swyddogion, a oedd yn gwerthuso cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf. Roedd y cylch gorchwyl yn cynnwys pwerau dirprwyol ac felly roedd yn briodol bod y Cabinet yn eu cadarnhau ac yn eu diweddar u'n gyffredinol i adlewyrchu'r arferion presennol, ac roeddent yn awr yn cynnwys cyfeiriad at Wariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai. Bydd y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddar u'n sicrhau bod y Grŵp Buddsoddi Strategol yn parhau i roi asesiad effeithiol a swyddogaeth rheoli mewnol. Roedd aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cabinet a'r Pwyllgorau Archwilio.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cyngropydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.432miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth gwerth £0.902m a oedd wedi'u cytuno eisoes fel rhan o'r gyllideb, gyda'r rhagdybiaeth y byddai'r cyfan yn cael ei ddarparu – byddai unrhyw eithriadau'n cael eu hadrodd i'r Cabinet pe bai angen

- ychydig iawn o amrywiadau oedd i'w hadrodd ar y cam hwn yn y flwyddyn ariannol, ond roedd nifer o bwysau gwasanaeth wedi'u nodi sydd angen eu monitro'n ofalus, a
- darparodd ddiweddarriad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo £653 mil o'r tanwariant Corfforaethol i Gronfa Wrth Gefn y Blaenoriaethau Corfforaethol er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r Blaenoriaethau Corfforaethol newydd sy'n cael eu datblygu.

Eglurwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata - roedd y gorwariant a ragwelir ar gyfer costau TG yn cynrychioli'r rhagamcan presennol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol, ac roedd y gwasanaeth yn ystyried mesurau lliniaru gyda'r nod o gyrraedd sefyllfa gytbwys. Anogir gwasanaethau i dynnu sylw at bwysau yn gynnar er mwyn gallu mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosib.
- Cludiant Ysgol – roedd cost gweithredu'r polisi newydd yn anhysbys ar hyn o bryd a byddai'n cael ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn
- Ysgolion – roedd cynlluniau adfer ariannol ar fin cael eu cytuno gydag ysgolion â diffyg ariannol a byddent yn cael eu monitro'n barhaus, byddai unrhyw bryderon ynglŷn â'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Datblygiad Harbwr y Rhyl - roedd trafodaethau yn parhau gydag adeiladwyr y bont i sicrhau bod amserlen cynnal a chadw priodol ar waith yn hirdymor.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni, ac
- (b) Yn cymeradwyo trosglwyddo £653 mil o'r tanwariant Corfforaethol i Gronfa Wrth Gefn y Blaenoriaethau Corfforaethol er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r Blaenoriaethau Corfforaethol newydd sy'n cael eu datblygu.

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried ac roedd dwy eitem ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Medi ynglŷn â Chynhyrchu Incwm Corfforaethol/ Ffioedd a Thaliadau ac Ad-dalu Dyledion.

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12 CASTELL BODELWYDDAN

[Datganodd y Cynghorydd Richard Mainon gysylltiad personol sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol ynglŷn â dyfodol Castell Bodelwyddan.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir i'r Cabinet ynglŷn â derbyn Ystâd Castell Bodelwyddan gan gyn-Gyngor Sir Clwyd ym 1984 ynghyd â rheolaeth ei weithrediad hyd yn hyn. Roedd yr adroddiad yn nodi cynigion gwaredu rhydd-ddaliad Gwesty Castell Bodelwyddan a rhan o'r ystâd tra'n cadw ardaloedd eraill gan eu gweithredu fel Parc Gwledig gyda mynediad cyhoeddus. Roedd manylion y goblygiadau ariannol wedi'u nodi'n glir yn yr adroddiad ac ymatebodd y swyddogion i'r cwestiynau ynglŷn â'r ystyriaethau ariannol a chyfreithlondeb y cynigion a darparu sicrwydd ynglŷn â darpariaeth cynnal a chadw yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD –

- (a) *Y dylai'r Cyngor gynnal trafodaethau gyda thrydydd parti a enwyd ar gyfer gwerthu'r budd rhydd-ddaliad gyda meddiant gwag.*
- (b) *I drafod telerau ar gyfer gwaredu rhydd-ddaliad Gwesty Castell Bodelwyddan (sy'n las ar gynllun 2 a oedd ynghlwm i'r adroddiad), i drydydd parti a enwyd am y swm a nodwyd yn yr adroddiad;*
- (c) *I drafod telerau ar gyfer gwaredu rhydd-ddaliad i drydydd parti a enwyd ar gyfer rhan o Ystâd Castell Bodelwyddan, gan gynnwys adeiladau Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, maes parcio, lawntiau, arena digwyddiadau a choetir (sy'n destun prydles 125 mlynedd i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan) am y swm a nodwyd yn yr adroddiad;*
- (d) *Bod y Cyngor yn cadw'r tir parc presennol, gan gynnwys ffosydd y rhyfel byd cyntaf a'r maes parcio ynghyd â phrydles 125 mlynedd ar gyfer y coetir. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad fel Parc Gwledig gyda mynediad cyhoeddus;*
- (e) *Y cedwir y tir amaethyddol fel rhan o Ystâd Amaethyddol y Cyngor, a*
- (f) *bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, ynghlwm i'r adroddiad fel rhan o'u hystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 a.m.

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	26 Medi 2017
Aelod / Swyddog Arweiniol: Arweinydd	
Awdur yr Adroddiad:	Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus
Teitl:	Cais Bargen Twf Economaidd Gogledd Cymru – Adroddiad Cynnydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae pob un o'r 6 Chabinet ar draws Gogledd Cymru a sefydliadau partner (Cygner Busnes Gogledd Cymru a'r sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach) wedi mabwysiadu *Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru* ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn nodi uchelgais strategol ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer datblygu cludiant a seiwaith, sgiliau a chyflogaeth ac arloesedd a thwf busnes. Yn dilyn hyn, gwahoddwyd Gogledd Cymru yn ffurfiol i ddatblygu'r weledigaeth yn 'Gais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a chyflwyno pwerau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am gynnydd gyda datblygiad y cais hwnnw ac yn amlinellu'r camau nesaf yn y broses.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Wrth i'r gwaith datblygu symud yn ei flaen, mae angen i drafodaeth camau cynnar ddechrau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd nid oes awdurdod i'r gwaith hwn gael ei wneud. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i sefydlu Cydbwylgor 'Cysgodol' ac i awdurdodi'r Arweinydd i gynrychioli Sir Ddinbych arno ac yn y trafodaethau cam cyntaf sydd eu hangen wrth aros i'r Cydbwylgor llawn gael ei sefydlu'n ffurfiol. Bydd fersiwn o'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i bob un o'r 6 Chabinet.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn:

- Nodi a chefnogi cynnydd datblygiad Cais Bargen Twf cystadleuol ar gyfer y rhanbarth.
- Cefnogi mewn egwyddor, y model llywodraethu a ffafrir, sef model cydbwylgor statudol ar gyfer ei ddatblygu ymhellach, gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl a argymhellir, a Chytundeb Rhwng Awdurdodau, i ddilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Awdurdodi'r Arweinydd i weithredu fel aelod Sir Ddinbych o Gydbwylgor 'Cysgodol' yn y cyfnod interim.
- Awdurdodi'r Arweinydd, ynghyd ag Arweinwyr y 5 cyngor partner arall, i ddechrau trafodaethau cam cyntaf cyfun gyda'r ddwy Lywodraeth dros raddfa a chynnwys amlinellol Cais Bargen Twf, gan nodi na ddechreuir unrhyw ymrwymiadau ariannol nac ymrwymiadau eraill ar y cam cyntaf hwn o drafodaethau.

3.2 Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'u hystyriaethau.

4. **Manylion yr adroddiad**

Gwnaeth y Cabinet fabwysiadu'r Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn nodi uchelgais strategol ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer datblygu cludiant a seilwaith, sgiliau a chyflogaeth ac arloesedd a thwf busnes. Mae cabinet y pum cyngor arall, a sefydliadau partner eraill (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a'r sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach) wedi mabwysiadu'r strategaeth ar yr un pryd.

Nodau allweddol y strategaeth yw gwella cystadleurwydd y rhanbarth, i gynyddu gwerth ychwanegol gros yr economi rhanbarthol, lleihau'r bwlc'h rhwng y rhanbarth a chyfartaledd y DU, a thyfu busnes i greu swyddi newydd a diogelu swyddi presennol.

Mae Gogledd Cymru wedi'i wahodd yn ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth yn 'Gais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a dirprwo pwersau i'r rhanbarth gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith rhanbarthol yn rhedeg yn barale i geisiadau twf mewn rhanbarthau penodol o Loegr ac yn Ne Cymru. Mae'r ymrwymiad i gefnogi cais Gogledd Cymru wedi'i ail-nodi yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae disgwyliad bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud tuag at gau Cais yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Ein terfyn amser gweithio yw dechrau trafodaethau gyda Llywodraethau o fis Tachwedd 2017 i ddod i gytundeb 'penawdau'r telerau' erbyn mis Mawrth 2018.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynnwys cais ffurfiol dan y pedair thema rhng-gysylltiedig, sef (a) safleoedd cyflogaeth a thai strategol; (b) twf busnes ac arloesed; (c) seilwaith cludiant a gwasanaethau; a (d) sgiliau, diweithdra a diwygio lles. Mae thema sy'n uno yn cael ei hystyried ar hyn o bryd hefyd.

Mae Cais Twf yn gynnig ffurfiol am fuddsoddiad y Llywodraeth a rhoi pwersau datganoledig. Mae'n ofynnol i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, ochr yn ochr â Llywodraeth(au), mewn dyraniadau cyfalaif, rhannu mewn benthyca cyfalaif, y defnydd o dir ac asedau, ac wrth ddarparu adnoddau capaciti proffesiynol a phrosiect. Disgwylir iddynt hefyd ofyn am gefnogaeth gan y sector preifat ar gyfer eu cynigion, gan alluogi a dylanwadu ar fuddsoddiad sector preifat fel rhan o'r pecyn Cais. Bydd pob cais wedi trafod amcanion a thargedau. Ar gyfer Gogledd Cymru, bydd y broses o wneud cais yn cynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Caiff Ceisiadau Bargen Twf eu datblygu mewn 4 cam:- (i) gwahoddiad i gyflwyno Cais; (ii) cyswllt anffurfiol rhwng y Llywodraeth a'r rhanbarth perthnasol o ran cyfeiriad y Cais a'r cynnwys craidd; (iii) y cytundeb cam cyntaf a elwir yn Benawdau'r Telerau; (iv) cytundeb terfynol a chymeradwyo'r Cais, ar y cyd rhwng yr awdurdodau partner a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Cais Gogledd Cymru ar y

camau olaf o gam (ii) a'r nod o ddod i gytundeb Penawdau'r Telerau erbyn mis Mawrth 2018.

Cafodd Gweledigaeth Twf a Strategaeth y rhanbarth a fabwysiadwyd gan bob Cyngor yn 2016 eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r sector preifat a phartneriaid allweddol eraill. Mae'r Weledigaeth yn ehangach o lawer na'r Cais Bargen Twf. Mae'r Cais Twf yn gam cychwynnol i ddiogelu cyllid a phwerau i weithredu Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ehangach.

Defnyddir y Cais Bargen Twf i gael mynediad i gyllid ar gyfer prosiectau allweddol na fyddent yn cael eu hariannu gan Lywodraethau fel arall, e.e. gwaith paratoi i ddatgloi safleoedd cyflogaeth a thai strategol, ac i ychwanegu trosoledd i Lywodraethau ymrwymo i fuddsoddiad mawr sy'n cael eu hystyried ond heb eu sicrhau eto, fel buddsoddiad mewn seilwaith rheilffyrdd a gwasanaethau wedi'u masnachfreintio, a chynlluniau cefnffordd. Caiff cynnwys manwl y Cais Bargen Twf eu rhannu'n llawn gyda phob awdurdod partner, a phartneriaid eraill, i'w cymeradwyo, cyn dod i unrhyw gytundeb gyda'r ddwy Lywodraeth yn y cam Penawdau'r Telerau.

Bydd gan y rhanbarth drwydded a chyfile i weithio y tu hwnt i'r Cais i ddiogelu ei uchelgeisiau dros amser. Bydd y Cydbwylgor a'r grwpiau swyddogion cefnogi a sefydlwyd i symud ymlaen gyda'r Fargen Twf hefyd yn gallu manteisio ar gyfleoedd eraill i gefnogi a chyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth.

Y Model Llywodraethu a Ffefrir

Mae trafod Ceisiadau Twf yn Lloegr yn arwain at fargeinion sy'n benodol i ardaloedd, ac mae eu teitlau yn aml yn cynnwys y term 'datganoli'. Mae'r model Bargen Datganoli wedi bod yn ddadleuol ar brydiau, yn rhannol am fod gofyniad wedi bod i gytuno i faer etholedig ar gyfer y rhanbarth fel rhan o'r pecyn. Nid oes angen y model cyfansoddiadol hwn yng Nghymru. Y model llywodraethu rhanbarthol a ffafrir yw cydbwylgor statudol. Mae angen trefniadau dros dro ar gyfer rheolaeth wleidyddol cam cyntaf y trafodaethau wrth aros am lunio cydbwylgor. Felly, cynigir cydbwylgor 'cysgodol', heb unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau ffurfiol.

Mae'r model cydbwylgor statudol yn fodel hysbys, ond mae cyfyngiadau iddo. Mae amlinelliad o'r cylch gorchwyl a awgrymir wedi ei nodi yn Atodiad 2.

Er mwyn cefnogi'r cydbwylgor bydd angen awdurdod lletyol i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol. Bydd angen un neu fwy o awdurdodau lletyol hefyd i gynnal y swyddogion proffesiynol a fydd yn rheoli'r rhagleni a'r prosiectau i weithredu'r cais twf. Nid oes awdurdod/awdurdodau lletyol wedi'u cytuno eto.

Bydd y cydbwylgor yn gofyn am gyfansoddiad, a fydd yn cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer ei swyddogaethau, a bydd yn cael ei danategu gan Gytundeb Rhwng Awdurdodau. Bydd Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn nodi sut y bydd y cyd-bwylgor yn cael ei lywodraethu, sut y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud gan gynnwys pa benderfyniadau a gaiff eu cadw ar gyfer cymeradwyaethau unigol cynghorau, rolau awdurdodau lletyol, sut y bydd cyfraniadau ariannol yn cael eu dosrannu, a sut y bydd risgiau a manteision yn cael eu rhannu.

Yr aelodaeth a argymhellir o'r cydbwyllgor yw Arweinydd pob un o'r chwe chyngor. Byddai gan bob arweinydd ddirprwy a enwebwyd, a byddai prif weithredwyr a gweithwyr proffesiynol arweiniol eraill yn cynghori'r Pwyllgor.

Mae opsiwn i'r Cydbwyllgor gyfethol aelodau o sefydliadau partner allweddol, yn bennaf:-

- Cyngor Busnes Gogledd Cymru;
- Addysg Uwch (Prifysgolion Bangor a Wrecsam-Glyndŵr); ac
- Addysg Bellach (Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai).

Byddai cynrychiolwyr sefydliadau partner yn aelodau cynghorol heb hawliau pleidleisio.

Mae'r model a argymhellir a'i swyddogaethau yn gyson gyda'r model a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu rhanbarthol. Felly, mae'r model yn ddiogel at y dyfodol yn erbyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a ddisgwylir sydd i ddod.

Gan ystyried canologwydd seilwaith cludiant a gwasanaethau i'r strategaeth, disgwyli'r Cydbwyllgor fod angen Is-Bwyllgor Cludiant arbenigol. Bydd aelodaeth yr Is-Bwyllgor hwn yn cynnwys yr aelodau cabinet portfolio cludiant o'r chwe awdurdod a gwahoddir partneriaid fel ymgynghorwyr fel bo angen. Gallai fod ag awdurdod lletyol ar wahân i'r un a fydd yn cynnal y cydbwyllgor.

Bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru addasu i ddarparu ar gyfer y trefniadau llywodraethu sy'n newid. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi newid a'r Cais Bargen Twf Economaidd. Mae awydd cryf i gadw Band Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd wedi bod ar y rhan fwyaf o waith datblygiad economaidd rhanbarthol, a hefyd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a gynigir a fyddai'n dod dan gyfarwyddyd strategol y Cydbwyllgor yn y model llywodraethu arfaethedig.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a rhoddir ystyriaeth i gylch gwaith sy'n cynnwys:

- Asesiadau rhanbarthol o angen a chyflle i arwain strategaeth;
- Datblygiad cysyniadau prosiect ar gyfer ystyriaeth; ac
- Adolygiad traws-sector a gwerthusiad o gynnydd ac effaith ar gamau allweddol gweithredu strategaeth.

Bydd angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r model mwyaf effeithiol a gwobrwyol ar gyfer trosolwg ac archwilio. Bydd angen dibynnu ar archwilio lleol ar y cam hwn i adolygu'r trefniadau ar gyfer Cais Bargen Twf wrth iddynt ddatblygu. Bydd opsiwn i ystyried model rhanbarthol ar gyfer trosolwg ac archwilio, o bosibl gan gynnwys chwe chadeirydd y pwylgorau awdurdod lleol perthnasol, yn ddiweddarach.

Camau Nesaf

Yn dilyn cytundeb o ran Penawdau'r Telerau gyda Llywodraethau, bydd angen i'r prosiectau yn y Cais fodloni profion model busnes pum achos y Llywodraeth ar gyfer diwydrwydd dyladwy. Bydd hwn yn gam dwys o gynllunio prosiect a rhaid iddo

ddechrau cyn diwedd y flwyddyn galendr yn 2017 ac ni fydd gan y rhanbarth y capaciti pwrrpasol heb adnoddau dros dro ychwanegol.

Mae capaciti cyfyngedig gan y rhanbarth i reoli cam nesaf datblygiad a thrafodaeth y Cais. Mae gwaith datblygu wedi'i reoli ar y cyd gan y rhwydwaith proffesiynol sy'n cefnogi Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hyd yma, sef y Grŵp Rheoli Rhaglen, gyda swyddogion unigol yn cymryd rolau arweiniol ar ran y Grŵp. Mae'r ymdrech hon ar y cyd wedi'i chefnogi gan y nifer fach o swyddogion rhanbarthol a gedwir. Bydd gofyn i'r partneriaid rhanbarthol wneud buddsoddiad mewn grŵp gweithredol rhanbarthol i gwblhau'r Cais a rheoli ei weithrediad yn y tymor hwy. Felly, mae argymhelliaid i wneud cyfraniad refeniw blynnyddol gan bob partner rhanbarthol allweddol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorriaethau Corfforaethol?

Mae datblygu'r Economi Leol wedi bod yn flaenorriaeth gorfforaethol ar gyfer y Cyngor. Tra gall llawer o'r gwaith gael ei wneud ar hyn ar lefel lleol, nid oes amheuaeth fod cryfhau'r economi rhanbarthol hefyd yn hanfodol. Mae'r gwaith i weithredu Gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Twf Economaidd i Ogledd Cymru yn gydran graidd.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes dim goblygiadau adnoddau ychwanegol uniongyrchol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn ar y cam hwn, ar wahân i wneud cyfraniad refeniw o £50k o gyllidebau 2017/2018. Mae hyn eisoes wedi'i ddarparu yn y gyllideb refeniw ar gyfer y tîm Datblygu Economaidd a Busnes. Yn y tymor hwy, bydd costau refeniw parhaus o wasanaethu cydbwyllgor, a'r costau mwy sylweddol ar gyfer rheoli rhaglen a phrosiect ar gyfer datblygu a gweithredu'r strategaeth o fis Ebrill 2018.

Mae costau cyfalaif possibl yn cael eu gwerthuso a rhoddir ystyriaeth fanwl o ran sut gall y partneriaid gyfyngu ar eu hatebolwydd a pha mor agored ydynt i risg ariannol fel rhan o drafodaethau'r Cais Bargen Twf. Caiff cynlluniau cyfalaif eu datblygu ar werthusiad achos busnes llym, a fydd yn ceisio sefydlu manteision i'r economi sy'n rhagori'n sylweddol ar gostau buddsoddi.

Fel rhan o Fargen Twf, bydd gofyn i Lywodraeth y DU ad-dalu prif gyfran swm cyfalaif benthyca ar gyfer cynigion a gymeradwywyd. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o fargeinion wedi cynnwys Cymeradwyaeth Benthyca'r Trysorlys a rhywfaint o gyllid refeniw presennol Llywodraeth y DU i gael ei integreiddio gyda chyllid lleol presennol i gael gwerth gwell o raglenni integredig. Yng Nghymru, mae gwariant lleol yn cynnwys cyllid refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni penodol.

Byddai dirprwyo cyfran o dwf Cyfradd Busnes i awdurdodau lleol yn darparu ffrwd fuddsoddi.

Mae Ceisiadau Bargen Twf mewn mannau eraill, gan gynnwys Partneriaeth Bae Abertawe, sy'n gymharydd defnyddiol, yn gosod cysail ar gyfer cyllid.

Gallai gwerth ariannol cronfeydd newydd i gael eu neilltuo gan Lywodraethau i gefnogi'r Cais Bargen Twf, ar sail maint cymharol y boblogaeth ranbarthol i Ranbarthau Dinas Caerdydd a Bae Abertawe, fod tua £240M. Mae mynediad i

gronfeydd cenedlaethol eraill, fel Cronfeydd Arloesedd a Sector Llywodraeth y DU, yn bosibl drwy'r Cais Bargen Twf.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les pan wnaeth Cabinet ystyried y cynigion Twf ym mis Chwefror 2017. Mae copi ynghlwm yn Atodiad 3.

Y prif gasgliadau oedd effaith gadarnhaol ar Ogledd Cymru yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Daw prif fanteision o'r mwy o gyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch economaidd, cyfoeth a lles personol a busnes y bydd ei weithgareddau yn creu, yn arwain at gymunedau mwy bywiog a chynaliadwy, gyda llai o amddifadedd a diweithdra, a gostyngiad yn yr anghydraddoldeb sy'n deillio o amddifadedd.

Mae risgiau, fodd bynnag - o ran pa mor gynhwysol fydd y twf a'r effaith y gallai twf gael ar y rhanbarth yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Bydd rheoli'r risgiau hyn yn gofyn am gamau bwriadol gan Gynghorau Gogledd Cymru a'u partneriaid. Mae rhai mesurau lliniaru eisoes ar y gweill, mae angen datblygu eraill.

Mae'r Grŵp Rheoli Rhaglen wedi cynhyrchu nodyn briffio ar y Cais Twf a Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae copi wedi'i atodi yn Atodiad 4.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae cynnal ymgynghoriad helaeth o flaen llaw yn ategu'r ddogfen gweledigaeth a strategaeth fel y nodir yn yr adroddiad. Mae datblygu cynnwys y Cais Bargen Twf yn broses gynhwysol gyda chyfranogiad sylweddol ar draws y sector cyhoeddus a busnes.

Rhoddodd Cabinet ystyriaeth i'r Weledigaeth Twf ym mis Medi 2016 a'r cynnig i sefydlu Cydbwyllgor statudol ym mis Chwefror 2017. Mae Cyngorwyr wedi cael eu briffio ar fwriadau strategol y Weledigaeth Twf a'r Strategaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r model llywodraethu terfynol a'r ffordd caiff cyfraniadau neu ymrwymiadau ariannol eu cymeraidwyo yn y dyfodol. Bydd angen ystyried y trefniadau cynnal a gweinyddu hefyd i sicrhau bod y costau a'r raddfa yn gymesur i werth y cais a'r rhaglen ariannu bosibl. Bydd goblygiadau cost uniongyrchol a nodir angen eu cynnwys o fewn yr adnoddau gwasanaeth presennol.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?
Mae cynllun rheoli risg manwl yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Cais Twf.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

a.2 Deddf Llywodraeth Leol 2000
a.101 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Appendix 1: Bid Strategic Outline

The content of the developing Growth Deal Bid follows the vision and strategy adopted by regional partners in 2016. The **four core themes** of the Bid are: -

- Strategic sites for employment and housing;
- Transport infrastructure and services;
- Business innovation and growth; and
- Skills, workless-ness and social reform.

The Bid Team is working on a unifying theme and narrative for the presentation of the Bid to Ministers.

The Growth Deal Bid is **complementary to and will support**:-

- UK and Welsh Government economic and social policy;
- UK Government policy to develop the competitiveness of economy of the Union post BREXIT negotiations;
- Welsh Government policy for regional governance and devolution;
- the UK Government Industrial Strategy;
- the UK Government and Welsh Government Sector Plans specifically for nuclear, energy, manufacturing (Automotive and Aerospace) and digital;
- the Wales Infrastructure Plan; and
- Cross-border planning and connectivity e.g. Growth Track 360 and elements of the Cheshire and Warrington Local Enterprise Partnership Devolution Deal.

The **strategic outcomes** of the Growth Deal Bid might include:-

- Enhanced site values for strategic employment and housing sites;
- Strategic site readiness/development status;
- Transport access e.g. reduce travel times to strategic employment sites; Transport usage figures to demonstrate modal switch to public transport;
- Business investment; Business growth; Business performance;
- Employment figures by type/sector/value – new and protected;
- Skills figures – by type/sector/level – against the targets of the regional skills strategy;
- Reductions in workless-ness and benefits dependency;
- Average income rates including household income;
- Regional Gross Added value (GVA);
- Sustainable housing growth figures; and
- Alternative and renewable energy supply production and carbon reduction.

The **particular characteristics** which give strength to our regional Bid include: -

- Development of key sectors as part of the UK and global economy
 - Low Carbon Energy and Nuclear Energy,
 - Advanced Manufacturing
 - Digital and Creative
- Connectivity – both physical and digital – to the wider UK economy

- Support to sustained indigenous business growth
- Sustainable development of a region with unique characteristics
 - Growth which is inclusive and has benefits for all parts of society
 - Growth which promotes social reform in areas including workless-ness
- ‘Green Growth’ which promotes and enables
 - Sustainable planning including multi-modal public transport
 - Low carbon energy industries
 - The complementary growth of foundation economies including tourism and agriculture.

Work is on-going with the expert support of the Business School, Bangor University, to develop the set of **performance measures and outcome-based targets** drawing on econometric data and evidence. Measures and targets are likely to be set which are (1) shorter term (2) cumulative and medium-term and (3) longitudinal.

As part of the Bid the region will be asking for **devolved functions and powers** from both governments. This is work in progress and is a sensitive area of negotiations with both Governments. Examples include: -

- Transport commissioning and operational powers and functions;
- Management of regional support to business sectors for marketing, growth and exporting strategy;
- A retention of a share of national non-domestic rate (business rates) growth for investment in the strategy as part of the collective local government financial contribution; and
- A partnership role with the Department for Work and Pensions in managing back to work programmes.

The eventual recommended set of devolution ‘asks’ will be shared in full with the partner councils, and other partners, for formal approval prior to the Heads of Terms stage.

For North Wales, both Government expect that there is **close joint strategic planning** with the immediate North West of England and with the wider Northern Powerhouse network. Our vision and strategy builds on the strong alliances and joint planning both within the region, through the work of the North Wales Economic Ambition Board and the cross-border partnerships such as the Mersey Dee Alliance. The latter has facilitated joint working with the Cheshire and Warrington Local Enterprise Partnership, Merseytravel, and the wider Northern Powerhouse Network. The growth bids from North Wales and the Cheshire and Warrington LEP are being developed in parallel and there is a co-dependency for their success.

North Wales is also making contributions to the wider strategy of the **Northern Powerhouse** network, for example the nomination of prime strategic sites for business growth and inward investment. Road and rail infrastructure and connectivity, and wider transport planning, including bus routes, are central to the North Wales Growth Strategy. The Growth Track 360 plan makes the case for cross-border rail investment and is progressing through the Governmental case-making and decision-making stages.

Both the UK and Welsh Governments will seek the close involvement of the **private sector and Higher Education (HE) and Further Education (FE)** partners in the development of proposals. Proposals which can evidence the support of the private sector and leverage private sector investment are being encouraged by both governments. The North Wales Business Council is fully involved in the development of the Growth Deal Bid.

The UK Government will expect the Welsh Government to match its **investment** in North Wales. The two governments will negotiate their shares of investment in the North Wales Growth Deal.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 2 – Outline Terms of Reference for the Joint Committee

Outline Terms of Reference of the Joint Committee
<ol style="list-style-type: none">1. Functions2. Strategy3. Prioritisation4. Representation5. Performance6. Accountability
Terms of Reference 1: Functions <ul style="list-style-type: none">• Economic growth strategy and planning• Infrastructure prioritisation and planning• Strategic land use planning and allocation• Transport planning and commissioning• Skills planning and commissioning strategy• Others to be added as powers are devolved
Terms of Reference 2: Strategy <ul style="list-style-type: none">• Setting the direction of regional strategy• On-going assessment of regional need & opportunity to underpin the strategy• Setting of priorities and investment plans to deliver the strategy
Terms of Reference 3: Prioritisation <ul style="list-style-type: none">• Prioritisation of contributory schemes• Business case development and case-making for prioritised schemes• Investment profiling and prioritisation• Securing investment agreements
Terms of Reference 4: Representation <ul style="list-style-type: none">• Engagement and relationship management with regional partners• Engagement and relationship management with cross-border partners• Advocacy & lobbying with Welsh and UK Governments, Ministers & political groups• Public and media relations and profile
Terms of Reference 5: Performance <ul style="list-style-type: none">• Programme management of implementation of the strategy• Oversight of performance against progress milestones & outcome measures• Securing strategic, programme management, and project development and management resources to implement contributory schemes
Terms of Reference 6: Accountability <ul style="list-style-type: none">• Reporting to the six local authorities• Reporting to regional partners on performance, investment performance and risk management• Reporting to Welsh & UK Governments on performance & the effective use of their investments

Limitations of Decision-Making and Reserved Matters

Examples of decisions which will be reserved for individual council approvals are: -

